**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe ) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Ted Latham | Cyngor Castell-nedd Talbot Council |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economa Abertawe |
| Ray Selby | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Steve Wilks | Prif Ysgol Abertawe |
| Emma Woollett | Bwrdd Lechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid Dinas-ranbarth Abertawe (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Sharon Burford | Cyngor Sir Gâr |
| Jonathan Burnes | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Jo Hendy | Head of Internal Audit (Pembrokeshire Council) |
| Greg Jones | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata - y Fargen Ddinesig (Cyngor Sir Gâr) |
| Steven Jones | Cyfarwyddwr Datblygu (Cyngor Sir Benfro) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Nicola Pearce | Cyfarwyddwr Amgylchedd (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) Rob Jones (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)

Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a/ac Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)
Steve Phillips (Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)) a/ac Ian Westley (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Benfro))

---

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd Chris Moore, Ray Selby, Wendy Walters, Steve Wilks ac Emma Woollett gysylltiad personol â Chofnod 103 "Pentre Awel (Cyflwyniad) a Chofnod 105 "Achos Busnes Pentre Awel - gydag Adborth y Bwrdd Strategaeth Economaidd".

**2 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 10 Medi 2020 fel cofnod cywir.

**3 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

**1) Ynni’r Llanw ym Mae Abertawe**

Mynegodd y Cadeirydd ei siom nad oedd Morlyn Llanw Bae Abertawe wedi mynd rhagddo; fodd bynnag, yn dilyn gwaith sylweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gobeithiai y byddai cyhoeddiad cadarnhaol yn cael ei wneud mewn perthynas ag Ynni’r Llanw ym Mae Abertawe maes o law.

**2) Glannau Digidol Abertawe**

Dywedodd y Cadeirydd fod prosiect Glannau Digidol Abertawe yn mynd rhagddo'n dda a'i fod wedi'i enwi'n "Fae Copr". Trefnwyd y seremoni "gosod carreg gopa" yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

**4 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**5 Adroddiad Archwilio Mewnol.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Chris Moore) adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am ganfyddiadau a chamau gweithredu adolygiad archwilio mewnol i Raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** y dylid nodi canfyddiadau a chamau gweithredu'r adolygiad archwilio mewnol i Raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**6 Cydbwllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe - Dyddiadau yn y Dyfodol 2021-2022.**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Abertawe (Huw Evans) adroddiad a dynnodd sylw at 15 Ebrill 2021 fel y dyddiad olaf a drefnwyd ar gyfer Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Roedd yr adroddiad yn ceisio ymestyn y cyfarfodydd a drefnir hyd at 7 Ebrill 2022.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi dyddiadau'r Cyd-bwyllgor y cytunwyd arnynt yn flaenorol:

| | | |
|---|---|---|
| *10 Rhagfyr 2020* | *11 Chwefror 2021* | *15 Ebrill 2021* |
| *14 Ionawr 2021* | *11 Mawrth 2021* | - |

2) Cymeradwyo'r dyddiadau ar gyfer y dyfodol fel yr amlinellir isod:

| | | |
|---|---|---|
| 13 Mai 2021 | 9 Medi 2021 | 13 Ionawr 2022 |
| 10 Mehefin 2021 | 14 Hydref 2021 | 10 Chwefror 2022 |
| 8 Gorffennaf 2021 | 11 Tachwedd 2021 | 10 Mawrth 2022 |
| 12 Awst 2021 | 9 Rhagfyr 2021 | 7 Ebrill 2022<br>**Wythnos 1af Ebrill er mwyn osgoi'r Pasg** |

**7 Egwyddorion Caffael Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Rheolwr Ymgysylltu â Busnes Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Peter Austin) adroddiad a oedd yn gofyn am ystyriaeth o ddrafft terfynol yr Egwyddorion Caffael ar gyfer caffael Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo'r Egwyddorion Caffael ar gyfer Caffael Prosiect Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**8 Strategaeth Rheoli Risgiau Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

Cyflwynodd Uwch Swyddog Cymorth Portffolio Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Amanda Burns) adroddiad a oedd yn ceisio Strategaeth Rheoli Risg a Chofrestr Risg gytunedig ar gyfer Portffolio Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Risg a'r dull cytunedig i'w oruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

2) Nodi'r Gofrestr Risg Portffolio ddiweddaraf a’r Asesiad Effaith COVID-19 fel y'u nodir yn Atodiadau B a C yr adroddiad.

**9 Cynllun Gweithredu'r Portffolio.**

Cyflwynodd Rheolwr Datblygu Portffolio Rhanbarth Dinas Bae Abertawe (Ian Williams) adroddiad a oedd yn ceisio cytuno bod y Cynllun Gweithredu yn ymateb i'r Adolygiad Swyddog Cyfrifyddu (ASC) ac argymhellion Adolygiad Porth 0.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Portffolio fel yr amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad fel ymateb i'r ASC a'r argymhellion Adolygiad Porth 0 fel y nodir yn Atodiadau B a C yr adroddiad.

2) Cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Portffolio fel yr amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad fel templed ar gyfer adrodd ar flaenraglen waith Rheolwr y Portffolio yn y dyfodol.

## 10 Adroddiad Monitro Chwarterol.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad a oedd yn amlinellu Adroddiad Monitro Chwarterol Portffolio Dinas-ranbarth Bae Abertawe a'i brosiectau cyfansoddol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer Portffolio Dinas-ranbarth Bae Abertawe a'i brosiectau cyfansoddol.

## 11 Pentre Awel. (Cyflwyniad)

Rhoddodd Sharon Burford (Cyngor Sir Gâr) gyflwyniad ar brosiect Pentre Awel.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Y dylid nodi'r cyflwyniad.

## 12 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 13 Achos Busnes Pentre Awel - gydag Adborth y Bwrdd Strategaeth Economaidd

Cyflwynodd Rheolwr y Prosiect (Sharon Burford) adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth ar gyfer Cynllun Busnes Prosiect Pentre Awel a chymeradwyaeth i gyflwyno'r model achos busnes pum achos yn ffurfiol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Gyngor Sir Gâr.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo cyflwyno model achos busnes pum achos Pentre Awel i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ffurfiol.

2) Dirprwyir awdurdod i'r Uwch-swyddog Cyfrifol wneud unrhyw newidiadau i'r achos busnes yn ôl yr angen i gael eu cymeradwyaeth.

3) Dylid nodi'r datganiad sefyllfa a ddarperir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.55 am

**Cadeirydd**